Mae eich asesiad PIP yng Nghanolfan Arloesedd y Bont, Doc Penfro

Cyfeiriad

Canolfan Arloesedd y Bont,
Parc Gwyddoniaeth a Thechnoleg Sir Benfro,
Doc Penfro,
SA72 6UN

Cliciwch am gyfarwyddiadau

Oriau agor

Dydd Llun i Ddydd Gwener
09:00 i 17:00

Map a gwybodaeth ychwanegol ar y dudalen nesaf

Pwysig: canllaw yn unig yw'r cyfarwyddiadau a ddarperir, gwiriwch eich llwybr cyn teithio

Yn y car

Mae'r ganolfan asesu wedi'i lleoli oddi ar yr A477 ar **Barc Gwyddoniaeth a Thechnoleg Sir Benfro**.

Wrth ddod at y gylchfan o Bont Cleddau ar yr A477, cymerwch yr allanfa gyntaf.

Wrth ddod at y gylchfan o Ddoc Penfro, cymerwch y drydedd allanfa.

Cymerwch y drydedd allanfa ar y gylchfan nesaf ac ewch ar hyd y ffordd honno nes i chi weld yr adeilad ar y chwith.

Mae'n adeilad canolfan busnes ddiwydiannol a adeiladwyd o frics a gwydr. Fe'i lleolir i'r de o'r bont dollau sy'n croesi dyfrffordd Aberdaugleddau.

Ar y bws

Y safle bws agosaf at y ganolfan asesu yw Tollau Pont **Cleddau .**

Gwasanaethir y safle gan 349 a 356. Mae'r safle bron i hanner milltir ar droed o'r ganolfan asesu.

Ar y trên

Yr orsaf drenau agosaf yw **Doc Penfro** (SA72 6HA).

Mae hwn 1 filltir ar droed o'r ganolfan ond sylwch fod y llwybr i fyny'r allt.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, ffoniwch ein canolfan ymholiadau ar 0808 178 8115

Mae eich asesiad PIP yng Nghanolfan Arloesedd y Bont, Doc Penfro



Data map ©2022 Google

Parcio

Mae parcio am ddim i ymwelwyr a **pharcio i'r anabl** ar gael yn y ganolfan.

Pan fyddwch chi'n cyrraedd

Cofiwch ddod â dau fath o ID gyda chi.

Byddwch yn mynd i mewn i'r adeilad trwy ddrws awtomatig neu garwsél. Mae'r dderbynfa yn union o'ch blaen.

Rhowch wybod i'r derbynnydd eich bod wedi cyrraedd ar gyfer apwyntiad.

Gwybodaeth ddefnyddiol

Mae mynediad heb risiau i'r adeilad. Mae'r ystafelloedd asesu i gyd ar y llawr gwaelod ac mae toiled hygyrch ar gael.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, ffoniwch ein canolfan ymholiadau ar 0808 178 8115